Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd Dyffryn Nantlle
Adroddiad 3

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD

GWYRDDNI

COMMUNITY • CLIMATE • ACTION


Ym mis Rhagfyr daeth Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd Dyffryn Nantlle ynghyd am y trydydd tro. Y tro hwn, daeth pawb at ei gilydd yn neuadd Goffa Penygroes, a chwrdd am ddiwrnod cyfan, ynghanol rhew mawr a thywydd eithafol!




Bore

Dechreuwyd y Cynulliad trwy adolygu'r broses o ddatblygu syniadau, er mwyn eu cynnwys yn y cynllun gweithredu. Esboniwyd mai yn C3 byddai'r cynulliad yn canolbwyntio ar hel, a datblygu syniadau, gan symyd ymlaen at werthuso y syniadau yn C4. Prif amcanion C3 felly oedd:

- Casglu a thrafod syniadau i'w cynnwys yn y cynllun gweithredu.
- Datblygu canllaw ar gyfer y syniadau fydd yn mynd i'r cynllun gweithredu.



Awdit Sgiliau



Yn sesiwn gynta'r diwrnod, aed ati i greu awdit o sgiliau holl aelodau'r Cynulliad. Dechreuwyd trwy roi cyfle i bawb rannu enghreifftiau o'u profiadau, sgiliau neu arbenigedd, boed trwy eu haddysg neu yrfa, ym maes yr amgylchedd neu waith cymunedol, a gan feddwl tu allan i'r bocs hefyd am sgiliau fyddai'n ddefnyddiol ar ynys bellennig, neu fel maes arbenigedd ar 'mastermind'.

Wedyn, cafodd sgiliau pawb eu trefnu mewn i gategorïau, er mwyn creu rhyw fath o fynegai, er mwyn dod o hyd i bobl gyda'r sgiliau perthnasol yn hawdd.



Cyflwyniad: Dull dod i Gonsensws

Er mwyn cytuno beth fydd yn mynd yn y cynllun gweithredu, mae angen dull o ddod i gytundeb fel grŵp. Mae yna sawl gwahanol ddull o ddod i benderfyniad mewn grŵp, ac mi rydan ni i gyd yn gyfarwydd er enghraifft efo pleidleisio, lle mae dau ateb syml, ie neu na. Mae yna fanteision i bleidlais, oherwydd ei bod yn system syml, hawdd i'w ddallt. Fodd bynnag, dydi o ddim wastad yn addas i benderfyniadau cymhleth, neu pan fo grwpiau yn gweithio efo'i gilydd. Mae eisiau ffordd o ddeud 'ie, ond mae angen newid ychydig bach ar y syniad' neu 'na, a dyma pam'.

Dyna pam rydyn ni am ddefnyddio dull ychydig bach yn fwy cymhleth. Mi fydd o'n cymryd mwy o amser, ond ma hynny achos mi fyddwn ni'n trafod pob opsiwn yn iawn, ac yn cymryd ein hamser i geisio canfod cyfaddawd pan fo hynny'n berthnasol, neu falle gael adborth a defnyddio yr adborth hwnnw i wella syniadau.


Felly, pan fyddwn ni'n trafod syniadau, mi fydd yna sawl ffordd o ymateb

1. Cytuno yn llwyr
2. Cytuno ar y cyfan, ond mae gen i gwestiwn
3. Dwi ddim yn caru y syniad, ond mi fedra i fyw efo fo
4. Dwi ddim efo barn gref/dydi hyn ddim yn effeithio fi
5. Mae gen i bryderon mawr am hyn
6. Mae gen i deimladau negyddol cryf am hyn.

Os yw pawb yn ymateb efo 1-4, byddwn yn trafod unrhyw gwestiynau, a bydd y syniad yn cael ei gynnwys yn y cynllun.

Os bydd rhai yn ymateb gyda 5 a 6 bydd angen trafodaeth bellach ar y syniad, i weld os oes modd dwyn perswâd, neu addasu y syniad fel bod y bobl hynny yn newid eu meddyliau.

Os nad oes modd cael pawb ymateb efo 1-4, byddwn ni'n rhoi'r syniad i'r naill ochor.



Mi all hyn fod yn broses hir, ac mi yda ni am wneud yn siŵr fod yna ddigon o amser i fynd drwy'r broses ar ddiwedd y cynulliad.

Ond er mwyn gwneud y broses yn haws, ryda ni am lunio ychydig o ganllawiau, fel grŵp, yda ni yn meddwl y dylia bob syniad ei ddilyn. Wrth i ni ddatblygu ein syniadau wedyn, mi allwn ni gyfeirio at y canllawiau hynny, a gobeithio bydd hynna'n lleihau faint o waith trafod fydd yna ar ddiwedd y cynulliad pan fyddwn ni'n dod i gonsensws terfynol dros be sy'n mynd yn y cynllun gweithredu.

Canllawiau ar gyfer gweithredu

Y dasg nesaf oedd mynd ati i geisio creu canllaw o werthoedd, egwyddorion neu flaenoriaethau yr oedd y cynulliad yn medru cytuno arnyn nhw. Ar eu byrddau, daeth pob grŵp i gytundeb dros eu hegwyddorion pwysicaf, ac yna fel ystafell defnyddiwyd y dull consensws i addasu prif egwyddor pob bwrdd i'w gynnwys yn y canllaw. Roedd yn broses hir, a bu trafod brwd ar bob cynnig. Nid yw'r canllaw yn cynnwys pob egwyddor felly, gan nad oedd amser i fynd trwy pob blaenoriaeth gan bob grŵp, ond mae'n rhoi enghraifft o rai o'r prif egwyddorion a flaenoriaethwyd gan yr aelodau ar y diwrnod, ac a lwyddwyd i ddod i gytundeb arnyn nhw ar y diwrnod – ond gallwn fod wedi cynnwys llawer mwy, pe bai amser yn caniatáu.




Canllawiau ar gyfer gweithredoedd:

1. Lle mae effaith ar yr iaith Gymraeg, dylai fod yr effaith hwnnw yn un positif
2. Mae unrhyw weithred yn gynaliadwy yn gymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol.
3. Dylai pob gweithred fod yn hunan-gynhaliol.
4. Dylai cynyddu lle i bobl a natur fod yn ganolog i bob gweithred.
5. Dylid ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'r gymuned, er mwyn newid y naratif o gwmpas cynaliadwyedd amgylcheddol, er mwyn bod yn ddiwylliannol gynhwysol, i gofleidio amrywiaeth ac i annog mewnbwn pobl ifanc.*

**Yn dilyn y Cynulliad, bu sesiwn ar Zoom ar gyfer yr aelodau nad oedd yn medru mynychu ar y diwrnod. Un darn o adborth a gynhigiodd y grŵp hwnnw ar yr canllawiau uchod oedd y dylai canllaw 5 gyfeirio yn fwy eang at rinweddau gwarchodedig eraill fel dosbarth economaidd ac abledd.*


Prynhawn

Cyflwyniad gan ysgolion



Ar ôl cinio, cafodd y cynulliad ymweliad gan bobl ifanc o Ysgol Rhogadfan, oedd wedi bod yn ran o Gynulliad Ysgolion ar yr Hinsawdd. Cynhaliwyd y Cynulliad Ysgolion gan GwyrddNi nôl ym Mis Medi, gyda disgyblion o Ysgol Dyffryn Nantlle, Ysgol Rhosgadfan, Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn.

Roedd y bobl ifanc yn ymuno â'r Cynulliad y tro hwn er mwyn rhannu 3 pheth efo'r aelodau, sef y pethau oedd y bobl ifanc wedi trafod oedd yn bwysig iddyn nhw yn eu hardal, pethau fel caeau pêl droed, safle hen dafarn y Quarry yn Llanllyfni, neu eu parc chwarae lleol.



Cafodd y cynulliad hefyd weld gweledigaeth y bobl ifanc o sut fyddai y flwyddyn 2040 yn edrych - petai ni wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i leihau ein allyrriadau

carbon a gwarchod y byd naturiol - a hynny trwy'r darlun isod o'u syniadau wedi ei greu gan Gwenllian Spink.




Yn olaf, bu'r bobl ifanc yn rhannu eu syniadau hwythau o ddatrysiadau posib ar gyfer newid hinsawdd a ellid gael eu rhoi ar waith yn Nyffryn Nantlle.


Mae mwy o fanylion am y Cynulliad Ysgolion i'w gael ar wefan GwyrddNi (https://www.gwyrddni.cymru/cynulliad-hinsawdd-ysgolion-dyffryn-nantlle/) lle gellir hefyd darllen copi o adroddiad Cynulliad Ysgolion Dyffryn Nantlle.


Datblygu Syniadau





Roedd sesiwn ola'r diwrnod yn gyfle i aelodau gychwyn trafod a datblygu syniadau a allai fynd yn y cynllun gweithredu. Mae manylion y syniadau hynny i gyd i'w gweld yn yr ail atodiad. Cafwyd deg syniad i gyd, gyda rhai o'r aelodau a ymunodd ar y sesiwn Zoom yn cyfrannu rhai syniadau hefyd.



SYNIAD-IDEA:
DISGRIFIO MEWN 7 GAIR:
DESCRIBE IN 7 WORDS:
Disgrifiad manwl:
Prif fantais:
Heriau?:
Manteision eraill:
CAMAU NESA - NEXT STEPS



SUNIAD-IDEA:
COMMUNITY ENERGY PROJECT
DISGRIFIO MEWN 7 GAIR:
DESCRIBE IN 7 WORDS:
Disgrifiad manwl:
Prif fantais:
Heriau?:
Manteision eraill:
CAMAU NESA - NEXT STEPS


SUNIAD - IDEA:
DISGRIFIO MEWN 7 GAIR:
DESCRIBE IN 7 WORDS:
Disgrifiad manwl:
Prif fantais:
Manteision eraill:
CAMAU NESAF - NEXT STEPS


SUNIAD - IDEA:
GREEN COMMUNITY BRAND
DISGRIFIO MEWN 7 GAIR:
DESGRIBE IN 7 WORDS:
Disgrifiad manwl:
Prif fantais:
Manteision eraill:
CAMAU NESAF - NEXT STEPS
SOCIAL MEDIA EXPOSURE
LAUNCH EVENT
STAKEHOLDER BUY-IN
FIND IMAGE
AGREE NAME


SUNIAD - IDEA:
DISGRIFIAD MEWN 7 GAIR:
DESCRIBE IN 7 WORDS:
Disgrifiad manwl:
Prif fantais:
Heriau?:
Manteision eraill:
CAMAU NESAF - NEXT STEPS
BUYERS / HOUSING ASSOCIATIONS
BUILDERS
INVESTMENT
MONTHLY
PLANNING
LAND


SUNIAD - IDEA:
DISGRIFIO MEWN 7 GAIR:
DESCRIBE IN 7 WORDS:
Disgrifiad manwl:
Prif fantais:
Heriau?:
Manteision eraill:
CAMAU NESA - NEXT STEPS


SUNIAD - IDEA:
DISGRIFIAD MEWN 7 GAIR:
DESCRIBE IN 7 WORDS:
Disgrifiad manwl:
Prif fantais:
Heriau?:
Manteision eraill:
CAMAU NESA - NEXT STEPS

Tan tro nesaf

Bydd y cynulliad yn cwrdd am y tro olaf yn mis Ionawr, pan fyddwn ni'n gorffen datblygu cynigion, ac yn dewis beth fydd yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu.

Diolchiadau

Diolch i Lowri Lingo cyf. am y gwasanaeth cyfieithu, i Jim o Gaffi'r Orsaf am y bwyd, ac i'n partneriaid yn yr Orsaf am fod yn rhan o'r tîm hwyluso.

https://linktr.ee/gwyrddni